# Cynnig i ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Bangor

## Dogfen Ymgynghori

**Fersiwn i ddisgyblion Cynradd**

**Mai 2018**

# CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Bangor.

Cyn penderfynu ar gynnig i ad-drefnu ysgolion, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol (sef Cyngor Gwynedd) roi gwybod i chi fel disgyblion yr ysgol, yn ogystal ac ymgynghorai perthnasol eraill, a rhoi cyfle i chi fynegi barn ar y cynnig.

Mae'r llyfryn hwn yn ceisio egluro beth fyddai'r newid yma yn ei olygu i chi fel disgybl.

# Beth yw pwrpas y newid?

Gwella ansawdd addysg

Gwella ansawdd adeiladau e.e. paentio

Gwneud gwell defnydd o adnoddau e.e. offer TG

Sicrhau trefn addysgol dda i’r dyfodol

Lleihau nifer llefydd gwag mewn ysgolion


Darparu ysgolion sy’n bwysig i’r gymuned

Cryfhau’r Iaith Gymraeg

Cael dosbarthiadau o faint addas

# Beth yw'r cynnig yn ardal Bangor ?

Yr opsiwn sy'n cael ei gynnig yn ardal Bangor yw i adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol y Garnedd. Bydd hyn yn golygu cau Ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (newydd). Bydd gan adeilad newydd Ysgol y Garnedd yn fwy na'r adeilad presennol, ac bydd yn gallu cynnig lle i 420 o ddisgyblion.



## Beth mae’r **newid** yma yn ei **olygu** ?

- Bydd Ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda yn cau
- Bydd Ysgol y Garnedd yn cael ei symud i safle newydd, ddim yn bell o’r safle presennol
- Bydd disgyblion Coedmawr a Glanadda yn trosglwyddo i Ysgol y Garnedd unwaith y bydd y gwaith adeiladu wedi ei gwblhau

## Bydd y cynnig yma yn arwain at ...

- Rhoi profiadau teg i bob plentyn
- Gwella safonau addysg
- Gwell adnoddau dysgu
- Rhoi cyfleoedd cyfartal i bawb
- Creu sefydlogrwydd yn yr ardal
- Sicrhau addysg dda i bawb

Mae'r Cyngor yn teimlo bydd y cynnig yma yn cryfhau addysg yr ardal i'r dyfodol

## Beth ydych chi'n ei feddwl o'r cynllun?

Cyn i Gyngor Gwynedd benderfynu ar y ffordd ymlaen, rydym eisiau clywed eich barn chi am y cynnig i ad-drefnu ysgolion yn ardal Bangor.

## Sut ydych chi yn cael ymateb?

Mae croeso i unrhyw ddisgybl anfon sylwadau at y Cyngor i fynegi barn neu gwblhau holiadur.

Mae angen i'r Cyngor dderbyn eich sylwadau erbyn **22 Mai 2018**.

## Angen mwy o wybodaeth?

- Am fwy o wybodaeth a chopi o'r holiadur, ewch ar safle wê'r Cyngor, sef: www.gwynedd.llyw.cymru/morderneiddioaddysg
- Gallwch gysylltu â'r Cyngor drwy e-bostio: Moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru
- Gallwch anfon llythyr/sylwadau/holiadur drwy'r post at:

  Swyddfa Moderneiddio Addysg,
  Pencadlys Cyngor Gwynedd
  Caernarfon,
  Gwynedd
  LL55 1SE